Arloesi

# Dacey Limited

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Cyllid arloesedd yn rhoi hwb i estyniad arbenigwr orthoteg o Gymru.



(O'r dde i'r chwith) Tom, Bob a Paul Cooper, gydag un o argraffwyr 3D Dacey

Mae Dacey Limited, sydd wedi'i leoli yn ne Cymru, yn arbenigo mewn dylunio a gweithgynhyrchu cynnyrch orthoteg wedi'u teilwra, er mwyn helpu i gywiro a chynorthwyo aelodau corff dynol i weithio'n iawn. Hefyd, mae'n darparu gwasanaethau orthoteg i ysbytai'r GIG ledled Cymru a gorllewin Lloegr, trwy dîm o weithwyr gofal iechyd proffesiynol a elwir yn orthotwyr.

Yn ddiweddar, mae'r cwmni teuluol wedi caffael lleoliad newydd, creu 10 o swyddi ac wedi mwy na threblu ei allu gweithgynhyrchu, ar ôl derbyn cymorth gan dîm arloesi Llywodraeth Cymru.

Mae'r cwmni'n gweithredu mewn marchnad cynyddol gystadleuol, gan gyflenwi cynnyrch orthopedig wedi'u teilwra, gan gynnwys esgidiau, mewnwadnau a chynhalwyr, i gleifion y GIG ledled y DU, yn ogystal ag allforio i Iwerddon a Denmarc.

Ar ôl darganfod 'tagfa' yn ei broses weithgynhyrchu, ymchwiliodd y cwmni i'r potensial ar gyfer awtomeiddio'r broses torri lledr. Roedd y rhannau lledr ar gyfer y rhan fwyaf o'i esgidiau'n cael eu patrymu a'u torri â llaw, ond roedd y perchnogion yn argyhoeddedig y gallai cyflwyno bwrdd torri cyfrifiadurol gynyddu eu cynhyrchiant yn sylweddol, gan gadw'r lefel ansawdd hollbwysig.

**Cyflawniadau allweddol:**

- Cyflwyno technoleg arloesol newydd er mwyn lleihau'r amser cynhyrchu a thorri costau
- Cynyddu nifer y gweithwyr ac ennill cytundebau masnachol newydd
- Ehangu ei gyrhaeddiad daearyddol a gwella cystadleurwydd

Ar ôl cysylltu â Llywodraeth Cymru, cyflwynodd Dacey gais llwyddiannus am daleb arloesi gwerth £25,000, cyn codi swm cyfatebol er mwyn prynu peiriant torri "Atom" modern. Cadwyd y staff presennol er mwyn gweithredu'r peiriant, a chyn pen dim, roedd y cwmni'n cynyddu ei gynhyrchiant, ac erbyn hyn, mae'n cynhyrchu swm cyfwerth â phedwar diwrnod o rannau lledr mewn un diwrnod.

Hefyd, ymchwiliodd Dacey i ffyrdd eraill o ymestyn ei allu dylunio a gweithgynhyrchu trwy gyflwyno technoleg newydd arloesol a dileu rhai camau yn y broses lle'r oedd angen mwy o waith llafur. Mae rhagor o fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru, ar y cyd ag ariannu cyfatebol, yn golygu bod modd defnyddio sganwyr symudol sydd â meddalwedd delweddu cyfrifiadurol er mwyn creu delweddau digidol 3-dimensiwn o draed y cleifion, yn hytrach na siartiau mesur 2-ddimensiwn neu dreulio amser yn creu castiau. Yna, gellir defnyddio'r ffeil ddigidol i greu'r hyn a elwir yn "last", sef siâp unigryw sy'n ffurfio templed er mwyn adeiladu esgidiau wedi'u teilwra o'i gwmpas.

Erbyn hyn, gall y cwmni naill ai ddewis creu pob last ar ei durn melino cyflym newydd, neu ar un o dri argraffydd 3D os bydd angen esgidiau llawdriniaethol mwy cymhleth ar y claf. Mae pob un o'r pedwar darn o gyfarpar wedi cael eu hychwanegu at gyfleuster gweithgynhyrchu estynedig Dacey yn y 18 mis diwethaf, gyda chymorth ariannol gan wahanol gronfeydd gan Lywodraeth Cymru neu rai wedi'u rheoli gan yr Undeb Ewropeaidd.

Mae effaith buddsoddiad Dacey mewn technoleg wedi mynd yn bell. Mae'r cynhyrchiant uwch wedi galluogi'r cwmni i gynyddu ei drosiant, ennill cytundebau newydd ac agor clinigau newydd mewn nifer o ardaloedd Ymddiriedolaethau'r GIG. Bellach, mae'r cwmni'n cyflogi 95 o staff, ond mae'n disgwyl cyrraedd dros 100 yn 2018.

Dywedodd Rheolwr Gyfarwyddwr Dacey, Bob Cooper: "Mae canolbwyntio ar arloesi a buddsoddi mewn technoleg wedi ein galluogi i gyflymu'r broses o ddylunio a chreu ein cynnyrch, torri costau ac, yn bwysicaf oll, creu cynnyrch o ansawdd uchel sy'n hanfodol ar gyfer ennill busnes newydd. Mae'r cymorth rydym wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn hollbwysig wrth sicrhau'r buddsoddiad roedd ei angen arnom er mwyn bodloni'r galw cynyddol am ein cynnyrch trwy gydol y DU."

Mae Dacey Ltd yn rhannu ei gyfleuster gweithgynhyrchu â'i chwaer-gwmni, sef ACE Orthotics, sy'n darparu gwasanaethau biofecanyddol anafiadau chwaraeon a phodiatreg arbenigol.

Busnes | Business
Cymru | Wales

I wybod rhagor am gyllid a chymorth
gan Lywodraeth Cymru | 03000 6 03000
innovation@llyw.cymru | businesswales.gov.wales/innovation/cy

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund

WG30458 / © Hawlfraint y Goron 2018 OGL